**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**
**CHWARAEON DAN DO**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**

**DAPRARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS**

**CYFLENWI ALCOHOL**

**GWEITHGAREDDAU UCHOD:**
**SUL – IAU: 1000 – 0100 yn ddyddiol**
**GWE a SAD:1000 – 0130**

**AMSERAU ANSAFONOL:**
**DIGWYDDIADAU CHWARAEON FYW e.e Cwpan y Byd Rygbi neu Pêl Droed sy'n cymryd lle mewn rhan o'r wlad ar amser wahanol, i agor a cyflenwi alcohol 30 munud cyn y digwyddiad ac i gau 30 munud wedi'r digwyddiad.**
**NOSWYL CALAN: O ddechrau oriau Noswyl Calan tan ddiwedd oriau Dydd Calan.**
**Penwythnosau Gwyl y Banc e.e Gwe, Sad a Sul: 1000 – 0200. Gwyl y Banc Mai, Sulgwyna Awst. Iau, Gwe, Sad, Sul, Llun: 1000 – 0200 – Penwythnos Gwyl y Banc Pasg.**
**Un awr ychwanegol Noswyl nadolig, Dydd San Steffan, Dydd San Patrick a Dydd Gwyl Dewi.**

**Oriau agor y safle**

**SUL – IAU: 1000 – 0130 yn ddyddiol. GWE a SAD: 1000 – 0200.**

**AMSERAU ANSAFONOL:**
**NOSWYL CALAN a DIGWYDDIADAU CHWARAEON FYW: Fel manylir uchod.**
**Penywthnosau Gwyl y Banc, Noswyl Nadolig, Dydd San Steffan, Dydd San Patrick a Dydd Gwyl Dewi: 1000 - 0230**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE**

**Atodlen 2 – Amodau sy’n cyd-fynd â’r Rhaglen Weithredu**

**Trwydded Safle’n amodol ar amodau ymhlygedig a addaswyd dan Ddeddf Trwyddedu 1964.**

**HYRWYDDO’R AMCANION TRWYDDEDU:**

a. **Cyffredinol - Pob un o’r Pedwar Amcan Trwyddedu:** Bydd rhoi 30 munud ar gyfer gorffen diodydd yn caniatáu i gwsmeriaid ddefnyddio’r toiledau a gwasgaru’n briodol adeg cau. Mae gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig yr hawl i symud offer tân, peiriannau AWP, peiriannau sigaréts, a/neu wrthrychau tebyg all amharu ar allu unigolion ar y safle i ddefnyddio allanfeydd neu lwybrau dianc. Ni chyflogir unrhyw un fel goruchwyliwr drysau oni bai ei fod ef/hi yn meddu ar gofrestriad SIA cywir.
b. **Atal Troseddau ac Anhrefn:** Bydd y safle’n cadw at bolisi goddef dim mewn perthynas â chyffuriau. Ni chynhelir unrhyw ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol sy’n annog pobl i or-yfed. Bydd aelod staff yn cerdded ardaloedd cyhoeddus y safle’n rheolaidd. Ar unrhyw achlysur sy’n cynnwys adloniant gyda cherddoriaeth a dawnsio cyhoeddus o bosib, cyflogir un Goruchwyliwr Drysau SIA cofrestredig ar y safle o 2400 hyd oriau cau'r diwrnod hwnnw.
c. **Diogelwch Cyhoeddus:** Bydd goleuadau argyfwng, offer tân a thystysgrifau’n cael eu cynnal a’u cadw i fodloni gofynion yr awdurdod cyfrifol perthnasol. Pan wneir cais, bydd staff yn trefnu tacsis i gasglu cwsmeriaid. Bydd darpariaeth cymorth cyntaf ar gael bob amser. Cedwir llyfr damweiniau/cofnodion ar y safle a chofnodir unrhyw ddigwyddiadau.
d. **Atal Niwsans Cyhoeddus:** Hysbysiadau i’w harddangos ger yr allanfeydd i’r safle yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel. Cedwir drysau a ffenestri ar gau, ac eithrio ar gyfer mynd a dod yn ystod cyfnod o adloniant wedi’i reoleiddio.
e. **Amddiffyn Plant Rhag Niwed:** Ni chaniateir unrhyw blant ar y safle heb gwmni oedolyn. Ni chaniateir unrhyw blant (dan 16 oed) ar y safle ar ôl 2200. Bydd cynllun prawf oedran ar waith sy’n gofyn bod pobl yn darparu dogfen adnabod gyda llun fel bo angen.

**Atodlen 3 – Amodau a atodwyd yn dilyn gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod Cyfryngu**

**CYFARFOD CYFRYNGU YN YR HOPE and ANCHOR, 21ain Gorffennaf 2009 am 11.00.**

**PRESENNOL: Mr Nigel Walters, Rheolwr Datblygu Busnes, SA Brain & Co. Ltd., Mr John Evans, Swyddog Trwyddedu'r Heddlu, Heddlu Dyfed Powys.**

**<u>MATERION A GYTUNWYD:</u>**

**Mae'r oriau Gweithgareddau Trwyddedadwy, Ar Agor i'r Cyhoedd, a'r Amserau Ansafonol wedi'u newid o'r cais gwreiddiol ac maent yn unol â'r manylion a geir yn y Drwydded hon.**

**Goruchwylio Drysau: Yn unol â Hyrwyddo Amcanion Trwyddedu (Diogelwch Cyhoeddus).**

**Niferoedd Uchaf a Ganiateir: Rhaid hysbysu'r Heddlu o fewn 28 diwrnod o 21ain Gorffennaf 2009.**

**AMSERAU ANSAFONOL:**
**DIGWYDDIADAU CHWARAEON BYW h.y. Cwpan y Byd Rygbi neu Bêl-droed sy'n cymryd lle mewn rhan o'r Byd sydd ar amser gwahanol, i agor a gweini alcohol 30 munud cyn y digwyddiad a chau 30 munud ar ôl y digwyddiad.**
**NOS CALAN: O ddechrau oriau Nos Calan hyd ddiwedd oriau Dydd Calan.**
**Penwythnosau Gŵyl Banc: h.y. Gwener, Sadwrn, Sul: 1000 - 0200 - Mai; Sulgwyn a Gŵyl Banc Awst, Iau, Gwe, Sad, Sul, Llun: 1000 - 0200 - Gŵyl Banc Pasg.**
**Un awr ychwanegol Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Sant Padrig a Dydd Gŵyl Dewi.**

